**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Aelodau'r Cynulliad

25 Tachwedd 2013

Annwyl Aelod Cynulliad

Sylwais ar drafodaeth y Pwyllgor Menter a Busnes ar 21 Tachwedd ynghylch y fframwaith TEN-T, ac fe hoffwn gymryd y cyfle i gywiro unrhyw gamargraff.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o drafodaethau am y fframwaith TEN-T newydd ers 2010.

Ein blaenoriaeth oedd gwneud yn siŵr ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu drwy sicrhau bod prif lwybrau a chanolfannau yn cael eu cynnwys ar y map Rhwydwaith Craidd. Dyma'r ffordd i gyrraedd at gyllid.

Drwy gymryd rhan yn y broses, rydym wedi llwyddo i gynnwys rhagor o lwybrau a chanolfannau yn y Rhwydwaith Craidd. Er enghraifft, cadarnhaodd y Comisiwn yn gynharach eleni eu bod am gynnwys y llwybr rheilffordd i Gaergybi.

Nid yw bod yn rhan o Goridor yn effeithio ar ein gallu i wneud cais am arian, fel y cadarnhaodd y Comisiwn. Mae'r Coridorau yn ffordd o helpu i weithredu prosiectau, ac yn arbennig o berthnasol ar gyfer llwybrau sy'n croesi ar draws mwy nag un Aelod Wladwriaeth ar hyd un darn o dir. Mae hyn yn llai perthnasol yn y DU.

Os oes gwirionedd yn yr hyn a ddywedodd swyddogion y Comisiwn ynghylch tynnu Cymru oddi ar Goridor y DU, mae hynny'n destun pryder. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Comisiwn y bydd modd i ni gyrraedd at y data a'r cyngor sydd ar gael ar gyfer coridor os ydym yn dymuno gwneud hynny, ac fe fyddwn yn gwneud hynny os yw'n fanteisiol i Gymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Rydym yn canolbwyntio'n holl ymdrechion ar fanteisio i'r eithaf ar y cyfle buddsoddi hwn a chael cymorth i brosiectau yng Nghymru.  Mae Rhwydwaith Craidd Cymru yn cynnwys prif lein rheilffordd Crewe - Caergybi, ac rydym eisoes yn datblygu achos busnes ar gyfer buddsoddiad.  Mae trafodaethau eisoes wedi dechrau ynghylch y posibilrwydd o arian TEN-T i helpu gyda datblygiad y prosiect hwn. Yn yr un modd, cafodd y Comisiwn rhagrybudd ynghylch gwelliannau i'r rheilffordd tu hwnt i Abertawe, ac fe nodwyd hyn ar restr o brosiectau posibl a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Comisiwn.

